



Cadw'n heini, cadw'n iach!

Teithiau Iach yn Ysgol Gynradd Aberteifi



Cafodd Cyngor Sir Ceredigion grant gan Gronfa Trafnidiaeth Leol Llywodraeth Cymru 2016/17 i wneud gwelliannau yn ardal Ysgol Gynradd Aberteifi, wedi'u cyllido'n rhannol gan Gyngor Tref Aberteifi. Cafodd y cynllun ei weithredu a'i gyllido'n rhannol gan Gyngor Sir Ceredigion gan gyflwyno parth 20 milltir yr awr newydd gyda mesurau gostegu traffig i helpu i greu amgylchedd mwy diogel ac annog mwy o ddisgyblion i gerdded, sgwtera a beicio i'r ysgol.



Mae'r Teithiau Iach yma yn helpu'r plant i fod yn fwy iachus, atal gordewdra, gwella canolbwytio yn y dosbarth a hefyd yn helpu i leihau tagfeydd ac allyriadau carbon y tu allan i gatiâu'r ysgol. Unwaith eto mae'r ysgol wedi llwyddo i ennill gwobr platinwm dylanwadol rhaglen Eco-sgolion am ei hymrwymiad a'i hymroddiad at wella agweddau amgylcheddol ac eco yn yr ysgol.

Mae'r ysgol hefyd yn rhan o Gynllun Teithiau Iach Sustrans Cymru sy'n annog ac yn galluogi mwy o blant i feicio, sgwtero neu gerdded i'r ysgol, gyda'r Cyngor Eco yn chwarae rôl weithredol wrth roi'r agwedd hon ar waith. Diolch i'r cyllid grant, mae llochesi newydd i feiciau a sgwteri wedi cael eu codi ar dir yr ysgol, ac yn dilyn eu poblogrwydd gyda'r



disgyblion mae lloches ychwanegol wedi cael ei hadeiladu ar gyfer sgwteri. Mae Ysgol Gynradd Aberteifi yn dathlu llwyddiant disgyblion yn rheolaidd a gyda dau sgwter newydd a helmedau'n cael eu darparu bydd cyfle gan ddisgyblion i fod yn 'Seren Sgwtero'r Wythnos' fel rhan o wasanaeth 'Disgybl yr Wythnos' yr ysgol.

Mae troedffyrdd lletach gyda wynebau ffordd newydd a chroesfannau bwrdd wedi'u codi wedi cael eu gosod i helpu sgwteri symudedd a defnyddwyr cadeiriau gwthio. Mae llwybr newydd wedi cael ei adeiladu hefyd i ddarparu ffordd fwy diogel i'r pwll nofio.



Os ydych chi'n gyrru disgyblion i'r ysgol, cofiwch barcio mewn modd cyfrifol yn y maes parcio neu beth am barcio ymhellach i ffwrdd o'r ysgol a cherdded gweddill y ffordd.

Gobeithio y bydd cydweithredu parhaus â'r gymuned yn helpu i gadw ein hysgol yn ddiogel ac yn iach.

Donna Hanly
(Pennaeth)

Y Cyngorydd John Adams-Lewis
(Cadeirydd, Corff Llywodraethu Ysgol Aberteifi)

